# CYFARFOD Y CYNGOR 29 MAWRTH 2023
# DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM (11B) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Lewis, A Morgan OBE, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, S. Emanuel, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts MBE, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Mae'r Cyngor yma'n cydnabod bod lefelau tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, a'u bod nhw'n debygol o waethygu o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y cysylltiad rhwng tlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Cyngor yn credu bod setliadau cyllideb Llywodraeth Leol sydd o dan wasgfa yn bryder, a bod perygl y byddan nhw'n effeithio ar ymyraethau wedi'u targedu i fynd i'r afael â thlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Er gwaethaf targedau blaenorol wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020, mae tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, gyda rhai adrannau etholiadol yn parhau i fod ymhlith y gwaethaf yn y DU. Er gwaethaf ymdrechion gorau staff addysgu yn RhCT, mae cysylltiad amlwg rhwng y tlodi yma a chyrhaeddiad addysgol.

Rhaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw, a hynny'n syth ar ôl pandemig Covid a llifogydd dinistriol 2020 ledled y fwrdeistref sirol, fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Dylid cymryd camau i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol sy'n bwnc llawer o dystiolaeth. Rhaid i bob disgybl gael pob cyfle posibl i dderbyn yr addysg ardderchog y mae'r Cyngor yn awyddus i'w chyflawni wrth symud ymlaen.

Er mwyn gwneud cynnydd cynnar ac effeithiol mewn perthynas â'r cynnydd mewn tlodi plant, mae'r Cyngor yn penderfynu:

[CYNNWYS] ***Nodi bod cynnydd o 28% yng nghyllideb ysgolion, o'i gymharu â chynnydd o 11% yn y gyllideb gyffredinol, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyfateb i £25 miliwn ychwanegol i ysgolion o'i gymharu â gwasanaethau eraill y Cyngor***

***Nodi mai £187 miliwn yw cyllideb ysgolion ar gyfer 23/24. Dyma gynnydd o 7.9% o 22/23, o'i gymharu â chynnydd o 6.6% yn setliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer RhCT.***

***Nodi bod data cymharol wedi'i gyhoeddi yn dangos bod gwariant fesul disgybl ar gyfer 2022/23 yn ôl cyllideb RhCT, sef £6,867, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £6,773.***

**[DILEU]** ~~Parhau i amddiffyn~~ [CYNNWYS] **Parhau i flaenoriaethu cyllidebau ysgolion** a sicrhau **[DILEU]** ~~eu bod nhw wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y pwysau ariannol maen nhw'n eu hwynebu, a sicrhau~~ bod modd i blant ddal i fyny yn dilyn effaith y pandemig.

- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu ymyraethau tlodi allweddol, fel sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llafur Cymru, sy'n cynnwys prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd.

Mae'r Cyngor yn gofyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu priodol:

- Sy'n cynnig opsiynau i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant, sydd i'w rhoi ar waith ar draws pob gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys addysg
- Sy'n sicrhau bod plant, disgyblion, rhieni, staff addysgu, undebau addysgu a phobl berthnasol eraill, yn ogystal â Phwyllgorau Craffu priodol, yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith datblygu a chraffu ar y Strategaeth Tlodi Plant cyn ei mabwysiadu.

**Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

Mae'r Cyngor yma'n cydnabod bod lefelau tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, a'u bod nhw'n debygol o waethygu o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y cysylltiad rhwng tlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Cyngor yn credu bod setliadau cyllideb Llywodraeth Leol sydd o dan wasgfa yn bryder, a bod perygl y byddan nhw'n effeithio ar ymyraethau wedi'u targedu i fynd i'r afael â thlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Er gwaethaf targedau blaenorol wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020, mae tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, gyda rhai adrannau etholiadol yn parhau i fod ymhlith y gwaethaf yn y DU.  Er gwaethaf ymdrechion gorau staff addysgu yn RhCT, mae cysylltiad amlwg rhwng y tlodi yma a chyrhaeddiad addysgol.

Rhaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw, a hynny'n syth ar ôl pandemig Covid a llifogydd dinistriol 2020 ledled y fwrdeistref sirol, fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Dylid cymryd camau i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol sy'n bwnc llawer o dystiolaeth.  Rhaid i bob disgybl gael pob cyfle posibl i dderbyn yr addysg ardderchog y mae'r Cyngor yn awyddus i'w chyflawni wrth symud ymlaen.

Er mwyn gwneud cynnydd cynnar ac effeithiol mewn perthynas â'r cynnydd mewn tlodi plant, mae'r Cyngor yn penderfynu:

-Nodi bod cynnydd o 28% yng nghyllideb ysgolion, o'i gymharu â chynnydd o 11% yn y gyllideb gyffredinol, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyfateb i £25 miliwn ychwanegol i ysgolion o'i gymharu â gwasanaethau eraill y Cyngor

-Nodi mai £187 miliwn yw cyllideb ysgolion ar gyfer 23/24. Dyma gynnydd o 7.9% o 22/23, o'i gymharu â chynnydd o 6.6% yn setliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer RhCT.

-Nodi bod data cymharol wedi'i gyhoeddi yn dangos bod gwariant fesul disgybl ar gyfer 2022/23 yn ôl cyllideb RhCT, sef £6,867, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £6,773.

-Parhau i flaenoriaethu cyllidebau ysgolion a sicrhau bod modd i blant ddal i fyny yn dilyn effaith y pandemig.

-Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu ymyraethau tlodi allweddol, fel sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llafur Cymru, sy'n cynnwys prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd.

Mae'r Cyngor yn gofyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu priodol:

- Sy'n cynnig opsiynau i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant, sydd i'w rhoi ar waith ar draws pob gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys addysg
- Sy'n sicrhau bod plant, disgyblion, rhieni, staff addysgu, undebau addysgu a phobl berthnasol eraill, yn ogystal â Phwyllgorau Craffu priodol, yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith datblygu a chraffu ar y Strategaeth Tlodi Plant cyn ei mabwysiadu.